



yr Athro

Pen-blwydd Hapus UCAC yn 75



Cynhadledd Flynyddol UCAC, 1984

Pymtheg mlynedd cyn i Gaerdydd gael ei dyrchafu'n brifddinas, daeth UCAC i fodolaeth mewn cyfarfod yn Nhŷ'r Cymry, 11 Gordon Road, yn y ddinas.

Roedd dydd Sadwrn 14 Rhagfyr 1940 yn ddiwrnod hanesyddol am sawl rheswm. UCAC oedd yr undeb llafur cyntaf erioed i gael ei sefydlu yng Nghymru – a hyd y dydd heddiw, UCAC yw'r unig undeb mewn unrhyw faes sy'n benodol ar gyfer gweithwyr yng Nghymru.

A dyna'n wir oedd cymhelliad y sylfaenwyr: creu undeb fyddai'n ymwneud â materion addysg mewn cyd-destun Cymreig ac a fyddai'n rhoi blaenoriaeth i addysg ac addysgwyr yng Nghymru. Polisiâu Cymreig wedi'u gwneud yng Nghymru.

Mae'r egwyddorion craidd yn parhau'n ganolog i'r undeb heddiw, sef sicrhau gwell system addysg i Gymru, ac amddiffyn buddiannau athrawon.

I nodi ei ben-blwydd yn 75, mae UCAC wedi lansio archif ar-lein o luniau, poster, pamffledi a memorabilia o

bob math. Mae aelodau presennol a chynt yn ogystal â disgynyddion y sylfaenwyr wedi bod yn chwilota ac wedi anfon trysorau atom sy'n taflu goleuni ar hanes yr undeb.




Ar flaen y gad yn dechnolegol: y cyfrifiadur cyntaf i gyrraedd Prif Swyddfa UCAC ym Mhen Roc, Aberystwyth, c.1984. Yn y llun mae Wyn James, Trefnydd Cenedlaethol UCAC, a Dilys Jones, ei ysgrifenyddes.



Protestio dros bensiwn teg i athrawon yn Llundain, Mehefin 2004

O'r chwith i'r dde: Elaine Edwards, Gruff Hughes, Menna Jones a Gareth Morgan

I weld yr holl gasgliad o luniau ewch i
www.ucac.cymru/dathlu75



Ym 1936, gadawodd Lewis Williams, o'r Barri, Tŷ'r Cymry yn ei ewyllys fel canolfan ar gyfer siaradwyr a mudiadau Cymraeg Caerdydd. Bu athrawon yn cwrdd yno o hynny ymlaen, ac mi ddaeth yn bencadlys i UCAC am dros bedwar degawd.

Gwyn Daniel, un o sylfaenwyr yr undeb, oedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol cyntaf - a bu yn y swydd am 20 mlynedd. Roedd ar dân dros sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd Saesnegedig, a dan ei ddylanwad ef, UCAC oedd yr unig fudiad oedd yn ymgychu yn y maes yn ystod y 1940au. Erbyn heddiw mae dros 30% o'n hysgolion cynradd a tua 15% o'n hysgolion uwchradd yn rhai cyfrwng Cymraeg - ac mae'r frwydr yn parhau.

Dyma rai o enwau'r sylfaenwyr ac aelodau cynnar: Cassie J. Davies, Gwyneth M. Davies, Isaac (Eic) Davies, Yr Athro W.J. Gruffydd, Enid Pierce Jones, Evan J. Jones, Dr Gwenan Jones, Hywel J. Thomas, D.J. Williams, Griffith J. Williams a'r Athro Jac L. Williams.

Figwr pwysig arall yn y dyddiau cynnar oedd Victor Hampson Jones. Fe lwyddodd i ddwyn perswâd ar Éamon de Valera, arweinydd yr wrthblaid Gwyddeleg Fianna Fáil ar y pryd, i annerch cyfarfod UCAC yn Aberdâr ym 1950, rhwng cyfnodau fel Taoiseach Gweriniaeth Iwerddon.

Mae'r undeb wedi gweld newidiadau mawr i'r dirwedd wleidyddol dros y blynyddoedd - gan gynnwys sefydlu'r Swyddfa Gymreig a swydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru yn y 1960au, ymuno â'r TUC ym 1995, ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996, ac wrth gwrs sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999 - a'r twf mewn pwerau ers hynny.

Gyda datganoli, daeth y cyfrifoldeb dros y rhan fwyaf o faterion addysg i Gymru - a chymrwyd cam mawr tuag at wireddu gweledigaeth wreiddiol yr undeb o sefydlu system addysg annibynnol i Gymru.

Ac mae'r ymgychu'n parhau - dros hawliau athrawon a darlithwyr, dros addysg cyfrwng Cymraeg, a thros system addysg y gallwn ymfalchio ynddi.

Meddai Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC ers 2008 "Rydym yn eithriadol o falch o'n gwreiddiau ac yn glynu'n dynn wrth weledigaeth ac egwyddorion sylfaenwyr yr undeb. Mae UCAC yn undeb deinamig, egwyddorol sy'n rhoi buddiannau'n aelodau a system addysg Cymru'n gyntaf."



Éamon de Valera yn annerch aelodau UCAC yng Nghynhadledd Flynyddol UCAC yn Aberdâr ym mis Ionawr 1950. Éamon de Valera oedd un o brif ffigyrau gwleidyddol Iwerddon yn yr 20fed ganrif.

O'r chwith i'r dde: John Fogarty, Gwyn M. Daniel (Ysgrifennydd Cyffredinol cyntaf UCAC), Éamon de Valera, Alderman T. J. Kerrigan (Arglwydd Faer Dinas Caerdydd), Fred Aiken (Iwerddon) a Victor Hampson-Jones (Ysgrifennydd Pwyllgor Cyfreithiol UCAC)



Dam o gelf a grewyd gan yr artist Anthony Evans i gofnodi penblwydd UCAC yn 50 yn 1990



Clawr Yr Athro, Hydref 1969

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Gareth Morgan

Is-Lywydd: Gwenno Wyn

Ysgrifennydd Cyffredinol: Elaine Edwards

Cyddlynnydd Yr Athro: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Ffôn: 01970 639950, ucac@ucac.cymru, www.ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.



Cynhadledd Flynyddol UCAC yn Aberystwyth, 2003
O'r chwith i'r dde: Edwin Williams, Ysgrifennydd Cyffredinol, Julia Burns, Cyn-lywydd ac Elaine Edwards, Llywydd Cenedlaethol



Cynhadledd Flynyddol UCAC yn Aberystwyth, 1956
O'r chwith i'r dde: Dr. D. Mathew Williams, Dr. Jac L. Williams, Cadeirydd a Gwyn M. Daniel, Ysgrifennydd Cyffredinol



Eiona Hammond, Ysgrifennydd Cangen UCAC yn Llundain rhwng 1947 a 1950



'Gorau Arf, Arf Dysg'; poster a gyhoeddwyd gan UCAC, c.1982

Chwith: Cynhadledd Flynyddol UCAC yn Abertawe, 1955



John Monks, TUC, yn dod i gyfarfod â Wyn James a Jenni Jones Annetts, Llywydd UCAC, yn Aberystwyth, c.1995

O'r chwith i'r dde:
Jenni Jones Annetts, Selwyn Jones, Edwin Williams a Wyn James yn cyflwyno tystiolaeth i'r Swyddfa Gymreig, c.1995



Chwith: 'Arian am Addysg nid Arfau'; Aelodau UCAC yn protestio yn Swyddfa Cyngor Caerfyrddin, c.1982

Cynhadledd Flynyddol UCAC yng Ngholeg y Llyfrgellwyr, Aberystwyth yn 1984
O'r chwith i'r dde: Emyr Wyn Thomas, Peter Cross (Cyn-lywydd), Wyn Thomas (Llywydd), John Evans (darpar lywydd), Selwyn Jones, Wyn James



Trosglwyddo Llywyddiaeth UCAC, c.1959
O'r chwith i'r dde: Gwyn M. Daniel, E.D.Davies, Sali Davies a Gunstone Jones



Protest 'Addysg nid Arfau' wedi'i drefnu gan aelodau UCAC yng Nghaerfyrddin, c.1982



Pleidleisio ar un o'r cynigion yng Nghynhadledd Flynyddol UCAC, 1988



Alun Creunant Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC. Symud Prif Swyddfa UCAC o Gaerdydd i Ben Roc, Aberystwyth yn 1983



Moelwen Gwyndaf, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC a Gruff Hughes, Swyddog Maes y Gogledd, yn rhoi tystiolaeth gerbron yr STRB yn Llundain, c.2004



John Emrys Jones, Trysorydd Cenedlaethol UCAC 1984-2013, yn agoriad swyddogol Prif Swyddfa UCAC yn Aberystwyth yn Mehefin 2009



Cynhadledd Flynyddol UCAC yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod, 2009

Cynhadledd Flynyddol UCAC 2016 - Llanelli

Bydd neb sy'n gweithio ym myd addysg Cymru'n synnu i glywed mai prif thema'r Gynhadledd eleni yw: **Cwricwlwm i Gymru.**

Dyma un o'r datblygiadau mwyaf uchelgeisiol, a mwyaf cyffrous, ers degawdau lawer – datblygiad a ddylai arwain at gwricwlwm gwirioneddol Gymreig am y tro cyntaf erioed.

Yn fwy na hynny, mae'r Gweinidog Addysg wedi rhoi talp mawr o'r cyfrifoldeb dros ddatblygu'r cwricwlwm newydd yn nwylo...athrawon!

Felly dyma'ch cyfle chi i gyfrannu, i fynegi barn, ac i lunio dyfodol addysg yng Nghymru.

Bydd gennym lu o siaradwyr ar bob math o agweddau o'r cwricwlwm newydd gan gynnwys:

- yr ysgolion arloesi
- cymhwysedd digidol
- y fargen newydd ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon
- trefniadau asesu a mesurau perfformiad

Yn ogystal â hynny, bydd sylw penodol i ymgyrch UCAC i leihau llwyth gwaith athrawon.

Ac ar ben hyn oll, bydd cyfle i drafod llu o gynigion gan aelodau'r undeb, a gosod cyfeiriad gweithredu UCAC am y flwyddyn i ddod – yn ogystal â chyfle i ymlacio, mwynhau adloniant a chymdeithasu gyda chyd-aelodau a staff.

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn Llanelli!



Cam ymlaen i blant yng Nghymru â dyslecsia

Cam mawr ymlaen i gynorthwyo plant a phobl ifanc â dyslecsia yng Nghymru, yn ogystal a'u rhieni, eu gofaldwyr a'u hathrawon, oedd cyhoeddi'r **Prawf Sgrinio Dyslecsia Cymraeg – Iau, (DST-W)** yn y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar Hydref 13eg eleni. Tan nawr nid oedd prawf dyslecsia cyfrwng Cymraeg ar gael i blant 7-11 oed felly nid oedd modd i Gymry iaith gyntaf gael eu sgrinio trwy gyfrwng eu mamiaith. Addasiad o waith gwreiddiol Angela Fawcett a Rod Nicolson (2004) yw'r prawf ac mae ei effeithlonrwydd i adnabod anawsterau sy'n gysylltiedig â dyslecsia wedi'i gydnabod yn fyd-eang.



Lansiad Dyslecsia Cymru o'r **Prawf Sgrinio Dyslecsia Cymraeg – Iau, (DST-W)**

Gweledigaeth y diweddar Michael Davies, un o sylfaenwyr Dyslecsia Cymru, oedd addasu'r prawf hwn i'r Gymraeg a gwiredwyd ei freuddwyd trwy ddyfalbarhad ymddiriedolwyr presennol yr elusen.

Braf oedd cael presenoldeb Huw Lewis, y Gweinidog Addysg yn y lansiad a noddwyd y noson gan Aled Roberts AC. Yn ei araith, pwysleisiodd Mr Roberts bwysigrwydd prawf o'r fath ar gyfer y plant hynny yng Nghymru sy'n wynebu rhwystrau gyda'u sgiliau llythrennedd a'u sgiliau dysgu.

Os ydych am archebu copi o'r prawf, cysylltwch gyda Dyslecsia Cymru <http://www.walesdyslexia.org.uk/>.

Yn y llun (chwith i'r dde) Nanna Ryder a Linda Grace (ymddiriedolwyr), Aled Roberts AC, Sandra Cutler (cadeirydd Dyslecsia Cymru), yr Athro Emeritus Angela Fawcett (awdur), Dr. Russell Hathway, Nicola Shaw, Amanda Kelland a Dr. Rhiannon Packer (ymddiriedolwyr).

Y Cynllun Sabothol yn dathlu ei ben-blwydd yn ddeng mlwydd oed

Mae'n ddeg mlynedd ers cynnig cyrsiau cyntaf y Cynllun Sabothol iaith Gymraeg – cynllun sy'n darparu cyrsiau gloywi iaith i ymarferwyr heb yr hyder na therminoleg arbenigol yn eu pwnc i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er mai cyrsiau ar gyfer athrawon a darlithwyr addysg bellach oedd yn cael eu cynnig yn wreiddiol, mae'r Cynllun wedi esblygu dros y ddegawd ddiwethaf i gynnig cyrsiau ar batrymau gwahanol yn ogystal â chynnig hyfforddiant wedi ei deilwra at gynorthwyyr dosbarth mewn ysgolion cynradd. Mae dros 1,000 o ymarferwyr wedi manteisio ar y cyfle i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol mewn lleoliadau ar draws Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

Un o'r rhain yw Siân Giles, athrawes gynradd o Gaerdydd.

"Wrth ddilyn strwythur y gwersi gramadeg, gwelais i effaith ar unwaith ar fy nealltwriaeth o gystrawen yr iaith Gymraeg. Baswn i'n sicr yn argymhell y Cynllun Sabothol i ymarferwyr sydd â diddordeb gwella eu Cymraeg."

Athrawes gynradd yn Sir y Fflint yw Catherine Howarth. Ar ôl cwblhau cwrs yn Llysfasi, dywedodd bod yr



hyfforddiant wedi rhoi hyder iddi hi wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg wrth ei gwaith.

"Ar ôl cwblhau'r cwrs, des i yn ôl i'r ysgol gyda chymaint o frwdfrydedd nes i gynorthwyydd dosbarth benderfynu cymryd rhan yn y Cynllun, a wnes i annog penaethiaid o ddwy ysgol arall i wneud cais hefyd!"

Mae pob un o gyrsiau'r Cynllun Sabothol yn cael eu hariannu yn llawn gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys ffioedd cwrs, costau cyflenwi a chostau teithio.

I ddarganfod mwy am y cyrsiau gwahanol sy'n cael eu cynnig ac i weld os yw'r Cynllun Sabothol yn addas ar eich cyfer chi, ymwelwch ag adran Dysgu Proffesiynol gwefan Dysgu Cymru - <http://dysgu.llyw.cymru>



Yn eu cyfarfod tymhorol ar 5 Chwefror, cafodd aelodau Adran Cydraddoldeb UCAC gyflwyniad gan Bethan Roberts, Rheolwr Gweithredol MIND Aberystwyth, ar faterion yn ymwneud ag iechyd meddwl yn y sector addysg. Bu'r cyflwyniad yn gyfle i aelodau'r Adran ddysgu mwy am arwyddion a symptomau problemau iechyd meddwl

mewn athrawon/darlithwyr, cydweithwyr neu ddisgyblion a dod i ddeall am yr achosion posib. Cafwyd hefyd trosolwg o'r mathau o driniaethau a chefnogaeth sydd ar gael er mwyn mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl yn y gweithle.

Am ragor o wybodaeth am waith MIND Cymru, ewch i'w gwefan:

<http://www.mind.org.uk/get-involved/mind-cymru-get-involved/mind-cymru-cymerwch-rhan/>

Neu os am wybod mwy am waith Adran Cydraddoldeb UCAC, cysylltwch â ni: ucac@ucac.cymru neu 01970 639 950.



Blaenoriaethau UCAC ar gyfer Etholiadau'r Cynulliad 2016



Dyma flaenoriaethau polisi UCAC ar gyfer yr etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016.

1. Ymrwymo i broses, gydag undebau a chyflogwyr, a fydd yn arwain at fodel wedi'i gytuno o gyfundrefn tâl ac amodau gwaith cenedlaethol ar gyfer athrawon Cymru
2. Sefydlu trefn ar gyfer cynllunio'r gweithlu addysg yn effeithiol
3. Yn y Cyfnod Sylfaen:
 - amddiffyn y cymarebau staff:plant
 - sicrhau bod athro cymwys yng ngofal pob dosbarth meithrin
4. Dileu'r profion Darllen a Rhifedd cenedlaethol ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen
5. Trawsnewid effeithlonrwydd dysgu Cymraeg Ail Iaith drwy weithredu argymhellion 'Un Iaith i Bawb'
6. Sicrhau cludiant am ddim, neu ostyngol, i addysg neu hyfforddiant ôl-16
7. Amddiffyn cyllideb y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Ewch i wefan UCAC i ddarllen mwy ar bob un o'r blaenoriaethau uchod:

<https://www.ucac.cymru/etholiadau2016>

Hefyd, rhwng 7 ac 8 o'r gloch ar nos Fawrth, 22 Mawrth 2016, byddwn yn cynnal **Sgwrs Addysg UCAC** drwy gyfrwng Twitter - felly dilynwch gyfrif **Twitter** UCAC (@AthrawonCymru) a chyfrannwch at y sgwrs drwy ddefnyddio'r hashnod **#SgwrsAddysgUCAC**

HYSTINGS DATHLU'R GYMRAEG: CYFLE I HOLI'R PLEIDIAU AM EU POLISI'AU YNGHYLCH Y GYMRAEG



7.00pm, 29 Chwefror 2016
Yr Hen Lyfrgell, Yr Aes, Caerdydd CF10 1BH

Carwyn Jones / Keith Davies, Llafur Cymru
Suzy Davies, Ceidwadwyr Cymreig
Aled Roberts, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Simon Thomas, Plaid Cymru
(Siaradwyr i'w cadarnhau)



Dathlu'r Gymraeg

RALI MILIWN O SIARADWYR CYMRAEG

ADDYSG GYMRAEG I BAWB!

**1pm, Dydd Sadwrn,
13 Chwefror 2016**
**Tu allan i Neuadd y Ddinas,
Parc Cathays, Caerdydd**

Dyma gyfle i ddarllen i'r Gymraeg a'i phrosysprwydd i bawb yn y
wlad cys y gela-rygbi i'w gwng Cymru a'r Alban.
Coryl Perry Jones, Kizzy Coseford, Jennie Bevan (Cymdeithas),
Aileen Edwards (UCAC) ac eraill

cymdeithas.cymru
peris/cymdeithas.cymru
01709 62481





ETHOLIADAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU 2016

HYSTINGS ADDYSG CYD-UNDEBOL ATL / NUT / UCAC

3 MAWRTH 2016

CADEIRYDD: GARETH EVANS

Gohebydd Addysg Wales Online / Western Mail

Andrew RT Davies, Ceidwadwyr Cymreig

Huw Lewis, Llafur Cymru

Aled Roberts, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Simon Thomas, Plaid Cymru



6pm, Future Inn, Caerdydd CF10 4AU

Am ragor o wybodaeth neu i gofrestru eich lle yn y digwyddiad hwn
cysylltwch ag UCAC ar 01970 639 950 neu ucac@ucac.cymru

www.ucac.cymru



@AthrawonCymru



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Adnoddau • Adnoddau • Adnoddau

Mae CBAC yn creu adnoddau digidol rhad ac am ddim o ansawdd uchel i gefnogi cymwysterau. Ewch i wefan adnoddau CBAC <http://adnoddau.cbac.co.uk> i weld yr adnoddau rhyngweithiol sydd yno ar eich cyfer. Dyma rai enghreifftiau o adnoddau newydd sydd ar y wefan:



CA4 – Astudio'r Cyfryngau – Rhaghybysebion a phosteri ffilm

Pwrpas yr uned hon yw cefnogi Uned 1, manyleb 2016 sef Hysbysebion a Marchnata gan roi sylw penodol i raghybysebion ffilm yn Adran A a phosteri ffilm yn Adran B yr arholiad. Mae'r adnodd yn rhoi sylw i'r fframwaith Astudio'r Cyfryngau (Testunau: genre, naratif, cynrychioliad, sefydliadau, cynulleidfaoedd a defnyddwyr) gan ystyried amrediad o astudiaethau achos cyfredol a hanesyddol.



CA3/4 – Daearyddiaeth – Tirweddau Nodedig y DU

Beth sy'n arbennig am dirlun y DU? Pa nodweddion sy'n gwneud eich tirlun chi'n nodedig? Ydi'r nodweddion hyn yn debyg neu'n wahanol i rannau eraill o'r DU? Mae ymwybyddiaeth o le yn bwysig ac un modd o'i amlygu yw i dynnu lliniau o'r nodweddion sy'n cyfrannu at greu'r tirlun lleol. Wedi dethol chwe llun penodol i gynrychioli'r ardal gellir eu cyfrannu i'r wefan hon er mwyn creu cronfa o luniau fydd yn cynrychioli tirluniau amrywiol y DU.



CA4 – Mathemateg – Pos y dydd

Problem Fathemateg ar gyfer pob dydd o'r flwyddyn er mwyn ymarfer cwestiynau un a dau farc yr arholiad TGAU. Gellir defnyddio'r gweithgareddau ar sgrin i dano'r wers neu ar lechen ddigidol ar gyfer adolygu.



CA4 – Cymraeg – Cerddi gosod TGAU

Cefnogaeth i addysgu cerddi gosod (Haen Sylfaenol a Haen Uwch) manyleb newydd TGAU Llenyddiaeth Gymraeg CBAC. Ymdrinnir â phob cerdd trwy ofyn cyfres o gwestiynau y mae modd eu hystyried a'u trafod yn y dosbarth. Mae darlenniadau o'r cerddi wedi eu cynnwys yn ogystal.



CA4 – Cerddoriaeth – Sgôr Mozart a rhannau unigol

Mae'r sgorau hyn ar gyfer perfformiad yn y dosbarth. Maent yn cefnogi'r tair uned TGAU ond yn arbennig Uned 1 Perfformio (ensemble) ac Uned 3 Arfarnu (gweithiau gosod). Mae'r pecyn yn cynnwys sgôr llawn ynghyd a rhannau unigol sy'n fwy anodd na'i gilydd yn C ac ar gyfer trawsodi offerynnau.



CA5 – Busnes – Cyfleoedd Busnes

Cyfres o adnoddau i gefnogi manylebau safon uwch newydd ar gyfer 2015. Mae'r pecyn yn cynnwys ffeiliau PDF gydag adnoddau rhyngweithiol digidol mae modd eu defnyddio i ysgogi trafodaeth gyda'r dosbarth cyfan.



CA5 – Cymraeg – Yr Hengerdd a'r Cywyddau

Mae'r adnodd hwn wedi ennill un o Wobrau Effaith ac Arloesi Prifysgol Bangor 2015 yn y categori 'Cyfraniad Nodedig i Gymru'. Dyma adnodd i gefnogi elfen CY5 'Yr Hengerdd a'r Cywyddau' manyleb safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf CBAC. Wedi ei awduro gan ddarlithwyr ein prifysgolion, mae'n agor cil y drws ar ddirgelion barddoniaeth ganrifoedd oed mewn modd hygyrch a difyr. Gyda chlic, mae modd canfod nodiadau geiriol sy'n datgelu ystyron geiriau a llinellau hynafol, dysgu am driciau mydryddol y beirdd, gwylio ffilm sy'n rhoi cyd-destun clir i'r 'Gododdin' yn yr Hen Ogledd yn cynnwys ymweliad â'r gwersyll milwrol cyfredol yng Nghatraeth (Catterick heddiw), neu wrando ar fersiwn rap o rai o gerddi'r fanyleb gan Aneirin Karadog.



Banc Cwestiynau – TGAU Mathemateg, TAG Bioleg a Bioleg Ddlynol, TAG Cmeg, TAG Ffiseg

Mae'r Banc Cwestiynau yn adnodd rhad ac am ddim sy'n eich galluogi i greu papur cwestiynau o ddewis o filoedd o gwestiynau o cyn-bapurau. Dewch o hyd i'r cwestiynau yr ydych chi eu hangen, ychwanegwch nhw at eich papur ac allforiwch eich papur ynghyd â chynllun marcio a sylwadau'r arholwyr fel PDF yn barod i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth.



Dyma rai o'r adnoddau sydd ar y gweill ar hyn o bryd:

Astudiaethau Cyfryngau TGAU - adnoddau i gefnogi'r asesiad dan reolaeth

Astudiaethau Busnes TAG - Swyddogaethau Busnes

Bwyd a Maeth - Clipiau fideo sgiliau

Dilynwch adnoddau addysgol CBAC ar twitter.com/adnoddau_cbac

**Prifysgol Abertawe
Swansea University**

Rydym yn cynnig ystod o wasanaethau i gefnogi athrawon a chynghorwyr ar draws Cymru gan gynnwys:

- Gweithdai Rhyngweithiol
- Cyflwyniadau
- Ffeiriau Addysg Uwch / Gyrfaoedd
- Nosweithiau Rhieni
- Ffug Gyfweiliadau

Gallwch fwcio sesiwn ar-lein ar:
bit.do/YmgysylltuAbertawe
neu ffoniwch ni ar 01792 602 943

abertawe.ac.uk